

# Golchi'r traed

*“Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os gweithredwch arnynt.” (adn. 17)*

## Beth am ddarllen Ioan 13:1–17 ac yna myfyrio

Awn ni ymlaen rŵan i ystyried un o roddion gwerthfawr eraill Crist: ei esiampl. Mae yna nifer o ffyrdd ardderchog lle mae Iesu wedi gosod ei esiampl i ni, ond yn ystod y dyddiau nesaf bydd yn rhaid i ni fodloni ar ganolbwyntio ar rai yn unig. Gadewch i ni edrych yn gyntaf ar yr esiampl a roddodd i ni yn ei wyleidd-dra.

Heb unrhyw amheuaeth, mae'r digwyddiad a gofnodir yn narlleniad heddiw – sef Iesu'n golchi traed ei ddisgyblion – yn rhoi i ni un o'r enghreifftiau gorau o wyleidd-dra'r Arglwydd. Mae llawer yn credu bod Iesu, pan ddywedodd wrth ei ddisgyblion, “...fe ddylech chwithau hefyd olchi traed eich gilydd” (adn. 14), yn golygu y dylai pob un o'i ddilynwyr drwy'r oesoedd ymarfer y ddefod hon. Mae'n amheus a oedd hyn yn wir, er bod myrddiynau o Gristnogion mewn sawl rhan o'r byd yn parhau i wneud hyn. Ac mae rhai o'r gwasanaethau lle gwneir hyn yn gynhyrfus ac ystyrlon iawn. Fodd bynnag, mae dilyn esiampl Iesu yn golygu ymarfer gwyleidd-dra, fel ein bod yn debyg i Grist yn y ffordd rydyn ni'n siarad, yn ymddwyn ac yn ymateb.

Ond efallai y byddai rhai'n gwrthwynebu ac yn dweud: “Mae Iesu yn Dduw, ac mae popeth yn hawdd i Dduw. Ond rydyn ni'n wan ac yn ddynol, ac felly mae pethau'n wahanol iawn i ni.” Mae'r diwinydd Douglas Webster yn cyfleu'r peth yn dda pan ddywed: “Mae'n eironi ofnadwy pan fydd Cristnogion yn esgusodi eu methiant i fod yn fwy tebyg i Iesu drwy ddweud bod ei dduwdod yn ei wneud yn eithriadol.” Gall yr ysbryd oedd yn amlwg yn Iesu fod ynom ninnau os caniatawn iddo lywyddu a chartrefu oddi mewn i ni. Yn wir, oherwydd ei fod, yn hollol unigryw, wedi ei ddarostwng ei hun i farwolaeth i'n hachub, mae popeth am ei ysbryd yn berthnasol i'n bywyd ninnau. Dylai ei hanes ef fod yn hanes i ni yn yr ystyr bod ein gweithredoedd i fod yn rhai gwylaidd – fel ei weithredoedd ef.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Lef. 19:1–10; Math.11:28–30; 1 Pedr 5:1–6

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Iesu'n cysylltu Ei addewid â phwy ydyw?
2. Beth ydy prif ffocws siars Pedr?

## Gweddi

O Dad, caniatâ i ysbryd dy Fab dreiddio i mewn i mi fel bod f'agwedd at eraill yr un ag agwedd dy Fab ataf i. Dw i wrth draed y dyn sy'n golchi traed. Gwna fi'n was parod. Yn enw Iesu. Amen.